

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adrannau 11 a 138)

ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

Adolygiadau cychwynnol

- (1) At ddibenion y Ddeddf hon, “adolygiad cychwynnol” yw adolygiad a gynhelir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“y Comisiwn”) at ddiben argymhell trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu.
- (2) Mewn adolygiad cychwynnol caiff y Comisiwn hefyd argymhell newidiadau canlyniadol perthnasol.
- (3) Mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i unrhyw beth a bennir, o dan adran 11(3) neu 138(3), yn y cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad cychwynnol.

Gwybodaeth Cychwyn

- I1** Atod. 1 para. 1(1)(2) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**
- I2** Atod. 1 para. 1(3) mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)**
- I3** Atod. 1 para. 1(3) mewn grym ar 6.5.2022 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **a. 175(1)(f)(2)(k)(ii)(6)(b)**

“Ardal sy'n cael ei hadolygu”

- (1) Yn yr Atodlen hon, mae “ardal sy'n cael ei hadolygu” i'w dehongli yn unol â'r paragraff hwn.
- (2) Pan fo'r Comisiwn yn cael ei gyfarwyddo o dan adran 11 i gynnal adolygiad cychwynnol, yr ardal sy'n cael ei hadolygu yw ardal y prif gyngor sydd wedi arfer ei bŵer o dan adran 8 i newid y system bleidleisio sy'n gymwys i ethol ei gynghorwyr.
- (3) Pan fo'r Comisiwn, ar ôl i Weinidogion Cymru gael cais i uno, yn cael ei gyfarwyddo o dan adran 138 i gynnal adolygiad cychwynnol, yr ardal sy'n cael ei hadolygu yw'r brif ardal newydd sydd i'w chyfansoddi, neu a gyfansoddir, gan reoliadau uno.
- (4) Pan fo—
 - ar ôl i Weinidogion Cymru hysbysu am eu cynigion fel a ddisgrifir yn adran 129(6), y Comisiwn yn cael ei gyfarwyddo o dan adran 138 i gynnal adolygiad cychwynnol, a
 - cynnig i drosglwyddo rhan o'r brif ardal sydd i'w diddymu i brif ardal arall, neu y darperir ar gyfer hynny mewn rheoliadau ailstrwythuro,yr ardal sy'n cael ei hadolygu yw'r ardal a bennir yn y cyfarwyddyd o dan adran 138.
- (5) Pan fo—
 - ar ôl i Weinidogion Cymru hysbysu am eu cynigion fel a ddisgrifir yn adran 129(6), y Comisiwn yn cael ei gyfarwyddo o dan adran 138 i gynnal adolygiad cychwynnol, a
 - bwriad i gyfansoddi prif ardal newydd, neu y darperir ar gyfer hynny mewn rheoliadau ailstrwythuro,yr ardal sy'n cael ei hadolygu yw'r brif ardal newydd sydd i'w chyfansoddi gan reoliadau ailstrwythuro.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

- I4** Atod. 1 para. 2(1)(3) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**
I5 Atod. 1 para. 2(2) mewn grym, gweler **a. 175(2)(k)(iii)(6)(b)**

Termau eraill a ddefnyddir yn yr Atodlen hon

3 (1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr “newidiadau canlyniadol perthnasol” (“*relevant consequential changes*”), mewn perthynas ag ardal sy'n cael ei hadolygu, yw—

- (a) newidiadau yn ffiniau cymunedau yn yr ardal;
- (b) newidiadau i enw cymuned, neu'r cyngor ar gyfer cymuned, yr argymhellir newid i'w ffiniau;
- (c) newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned yn yr ardal; ystyr “trefniadau etholiadol” (“*electoral arrangements*”) yw—
 - (a) mewn perthynas ag ardal sy'n cael ei hadolygu—
 - (i) nifer y cynghorwyr ar gyfer y prif gyngor yn yr ardal;
 - (ii) nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol y rhennir yr ardal iddynt at ddiben ethol cynghorwyr i'r prif gyngor;
 - (iii) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob ward etholiadol;
 - (iv) enw pob ward etholiadol;
 - (b) mewn perthynas â chymuned mewn ardal sy'n cael ei hadolygu—
 - (i) nifer y cynghorwyr ar gyfer cyngor y gymuned;
 - (ii) ei rhaniad yn wardiau cymunedol at ddiben ethol cynghorwyr i gyngor y gymuned;
 - (iii) nifer, math a ffiniau unrhyw wardiau cymunedol;
 - (iv) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward gymunedol;
 - (v) enw unrhyw ward gymunedol.

(2) Yn is-baragraff (1), yn y diffiniad o “trefniadau etholiadol”, mae'r cyfeiriadau at y math o ward yn gyfeiriadau at ba un a yw'r ward yn ward un aelod neu'n ward amlaelod; ac at y diben hwn—

ystyr “ward amlaelod” (“*multiple member ward*”) yw ward y mae nifer penodedig (mwy nag un) o gynghorwyr i'w hethol ar gyfer y ward;

ystyr “ward un aelod” (“*single member ward*”) yw ward y mae un cynghorydd yn unig i'w hethol ar ei chyfer.

(3) Mae adran 149 yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ystyron termau a ddefnyddir yn yr Atodlen hon.

Gwybodaeth Cychwyn

- I6** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Cyfarwyddydau a chanllawiau i'r Comisiwn

- 4 (1) Rhaid i gyfarwyddyd o dan adran 11 neu 138 bennu erbyn pa ddyddiad y mae rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru o dan baragraff 8(3)(a).
- (2) Caiff cyfarwyddyd o dan adran 11 neu 138 ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal yr adolygiad cychwynnol.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol, gan gynnwys—
 - (a) cyfarwyddydau ynglŷn ag ym mha drefn y mae gwahanol adolygiadau cychwynnol sy'n ofynnol gan gyfarwyddydau o dan adran 11 neu 138 i'w cynnal ac ynglŷn ag a yw gwahanol adolygiadau i'w cynnal ar yr un pryd, a
 - (b) cyfarwyddydau sy'n pennu materion y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gynnal adolygiadau cychwynnol.
- (4) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—
 - (a) y Comisiwn, a
 - (b) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i roi'r gorau i gynnal adolygiad cychwynnol, ac i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r adolygiad.
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad interim o dan baragraff 7(2) mewn perthynas ag ardal sy'n cael ei hadolygu, gyfarwyddo'r Comisiwn o dan adran 11 neu 138 i gynnal adolygiad cychwynnol arall mewn perthynas â'r un ardal.
- (7) Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol.

Gwybodaeth Cychwyn

- I7** Atod. 1 para. 4(1)-(3)(6) mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)(2)(k)(i)**
- I8** Atod. 1 para. 4(1)-(3)(6) mewn grym ar 6.5.2022 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **a. 175(2)(k)(i)(6)(b)**
- I9** Atod. 1 para. 4(4)(5)(7) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Cynnal adolygiad cychwynnol

- 5 (1) Rhaid i'r Comisiwn, wrth ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu—
 - (a) ceisio sicrhau bod y gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer cynghorwyr y prif gyngor sydd i'w hethol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu yr un fath ym mhob ward etholiadol o ardal y cyngor, mor agos ag y gall fod, a
 - (b) rhoi sylw i—

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sy'n hawdd eu hadnabod ac y byddant yn parhau felly, a
 - (ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.
- (2) At ddibenion is-baragraff (1)(a) rhaid ystyried—
- (a) unrhyw anghysondeb rhwng nifer yr etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sy'n gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel a welir mewn ystadegau swyddogol perthnasol), a
 - (b) unrhyw newid yn nifer neu ddsbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn yr ardal sy'n cael ei hadolygu sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau yn union ar ôl i argymhellion gael eu gwneud.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion adolygiad cychwynnol, gyfarwyddo prif gyngor ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu neu gyngor ar gyfer cymuned mewn ardal sy'n cael ei hadolygu i ddarparu i'r Comisiwn unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol neu unrhyw ddogfennau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (4) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 6—
- ystyr “etholwr llywodraeth leol” (“*local government elector*”) yw person sydd wedi ei gofrestru'n etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl;
 - ystyr “ystadegau swyddogol perthnasol” (“*relevant official statistics*”) yw'r ystadegau swyddogol o fewn yr ystyr a roddir i “official statistics” yn adran 6 o [Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 \(p. 18\)](#) y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol.

Gwybodaeth Cychwyn

110 Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 21.1.2021, gweler [a. 175\(1\)\(f\)](#)

Y weithdrefn ragadolygu

- 6 (1) Cyn cynnal adolygiad cychwynnol, rhaid i'r Comisiwn gymryd y camau y mae'n ystyried eu bod yn briodol—
- (a) er mwyn gwneud yr ymgynghoreion gorfodol, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn debygol bod ganddynt fuddiant yn yr adolygiad, yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd i gynnal yr adolygiad ac unrhyw gyfarwyddydau eraill a roddir gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r adolygiad, a
 - (b) i ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol ar y weithdrefn a'r fethodoleg a fwriedir ganddo ar gyfer yr adolygiad cychwynnol ac, yn benodol, ar sut y mae'n bwriadu penderfynu ar nifer priodol y cynghorwyr ar gyfer y prif gyngor yn yr ardal sy'n cael ei hadolygu.
- (2) Yn yr Atodlen hon, ystyr “yr ymgynghoreion gorfodol” yw—
- (a) yn achos adolygiad cychwynnol a gynhelir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 11, prif gyngor yr ardal sy'n cael ei hadolygu;
 - (b) yn achos adolygiad cychwynnol a gynhelir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 138, y cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro;

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (c) y cynghorau ar gyfer y cymunedau presennol (os oes rhai) yn yr ardal sy'n cael ei hadolygu;
- (d) unrhyw bersonau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn cyfarwyddyd i gynnal adolygiad cychwynnol.

Gwybodaeth Cychwyn

- I11** Atod. 1 para. 6(1)(2)(c)(d) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**
- I12** Atod. 1 para. 6(2)(a) mewn grym, gweler **a. 175(2)(k)(iii)(6)(b)**
- I13** Atod. 1 para. 6(2)(b) mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)(2)(b)(ii)**

Ymchwilio ac adrodd interim

- 7 (1) Wrth gynnal adolygiad cychwynnol, rhaid i'r Comisiwn gynnal yr ymchwiliadau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.
- (2) Ar ôl cynnal yr ymchwiliadau o dan is-baragraff (1), rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad interim sy'n cynnwys—
- (a) ei gynigion o ran y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu ac unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau canlyniadol perthnasol, a
 - (b) manylion yr adolygiad a gynhaliwyd ganddo.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn—
- (a) anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru a'r ymgylgoreion gorfodol,
 - (b) cyhoeddi'r adroddiad,
 - (c) rhoi gwybod i unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol sut i gael gafael ar yr adroddiad,
 - (d) gwahodd sylwadau ar yr adroddiad, ac
 - (e) hysbysu Gweinidogion Cymru, yr ymgylgoreion gorfodol ac unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol am y cyfnod ar gyfer sylwadau.
- (4) Pan anfonir adroddiad at brif gyngor o dan is-baragraff (3)(a), rhaid iddo—
- (a) cyhoeddi'r adroddiad,
 - (b) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn ei swyddfeydd yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau, ac
 - (c) cymryd y camau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud yr etholwyr llywodraeth leol yn ei ardal yn ymwybodol o—
 - (i) yr adroddiad,
 - (ii) sut i gael gafael ar yr adroddiad, a
 - (iii) y cyfnod ar gyfer sylwadau.
- (5) At ddibenion is-baragraffau (3) a (4), ystyr “y cyfnod ar gyfer sylwadau” yw cyfnod nad yw'n llai na chwe wythnos, nac yn hwy na 12 wythnos (fel a bennir gan y Comisiwn) sy'n dechrau'n ddim cynharach nag un wythnos ar ôl rhoi hysbysiad am y cyfnod o dan is-baragraff (3)(e).

Gwybodaeth Cychwyn

- I14** Atod. 1 para. 7 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Adroddiad terfynol

- 8 (1) Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer sylwadau o dan baragraff 7(3) ddod i ben, rhaid i'r Comisiwn ystyried ei gynigion gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd ganddo yn ystod y cyfnod.
- (2) Yna rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad terfynol sy'n cynnwys—
- (a) ei argymhellion o ran y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu ac unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau canlyniadol perthnasol,
 - (b) manylion yr adolygiad a gynhaliwyd ganddo, ac
 - (c) manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion yn yr adroddiad interim a wnaed yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd, ac esboniad paham y gwnaed y newidiadau hynny.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn—
- (a) cyflwyno'r adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru,
 - (b) anfon copi o'r adroddiad at yr ymgynghorion gorfodol eraill ac at unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol,
 - (c) cyhoeddi'r adroddiad, a
 - (d) rhoi gwybod i unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth neu a wnaeth sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad interim a gyhoeddwyd o dan baragraff 7, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol, sut i gael gafael ar yr adroddiad.
- (4) Pan anfonir adroddiad terfynol at brif gyngor o dan is-baragraff (3)(b), rhaid iddo—
- (a) cyhoeddi'r adroddiad terfynol,
 - (b) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn ei swyddfeydd am chwe wythnos o leiaf ar ôl y dyddiad y cafodd y cyngor yr adroddiad, ac
 - (c) cymryd y camau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud yr etholwyr llywodraeth leol yn ei ardal yn ymwybodol o'r adroddiad, a sut i gael gafael arno.
- (5) Nid yw adran 29(8) o Ddeddf 2013 (dim argymhellion i gael eu gwneud na'u cyhoeddi yn y naw mis cyn etholiad cyffredin) yn gymwys yn achos argymhelliad a gynhwysir mewn adroddiad terfynol o dan is-baragraff (2).

Gwybodaeth Cychwyn

I15 Atod. 1 para. 8 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Pŵer i wneud rheoliadau pan wneir argymhellion

- 9 (1) Ar ôl iddynt gael adroddiad terfynol o dan baragraff 8 sy'n cynnwys argymhellion gan y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad cychwynnol, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—
- (a) gweithredu unrhyw argymhelliad a gynhwysir yn yr adroddiad, gydag addasiadau neu hebddynt;
 - (b) gwneud darpariaeth arall y maent yn ystyried ei bod yn briodol o ran y trefniadau etholiadol a'r newidiadau canlyniadol perthnasol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth iddynt ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu at ddiben gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (1), wneud y pethau a nodir ym mharagraff 5(1)(a) a (b) (ac mae paragraff 5(2) a (4) yn gymwys yn unol â hynny).
- (3) Ni chaniateir gwneud unrhyw reoliadau o dan is-baragraff (1) nes bod y cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoedda'r Comisiwn yr adroddiad o dan baragraff 8 wedi dod i ben.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu unrhyw wybodaeth bellach y maent yn ystyried ei bod yn briodol neu unrhyw ddogfennau pellach y maent yn ystyried eu bod yn briodol iddynt mewn perthynas ag argymhellion y Comisiwn.

Gwybodaeth Cychwyn

I16 Atod. 1 para. 9 mewn grym ar 21.1.2021, gweler [a. 175\(1\)\(f\)](#)

Pŵer i wneud rheoliadau pan na wneir unrhyw argymhellion

- 10 (1) Os nad yw'r Comisiwn wedi cyflwyno adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru o dan baragraff 8(3) erbyn y dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal yr adolygiad cychwynnol, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-baragraff (2).
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr is-baragraff hwn wneud y ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol o ran y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu ac unrhyw ddarpariaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol ar gyfer newidiadau canlyniadol perthnasol.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth iddynt ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu at ddiben gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (2), wneud y pethau a nodir ym mharagraff 5(1)(a) a (b) (ac mae paragraff 5(2) a (4) yn gymwys yn unol â hynny).
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu unrhyw wybodaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol neu unrhyw ddogfennau y maent yn ystyried eu bod yn briodol iddynt mewn perthynas ag unrhyw faterion sydd wedi dod i sylw'r Comisiwn o ganlyniad i—
 - (a) unrhyw gamau a gymerwyd o dan baragraff 6,
 - (b) unrhyw ymchwiliad o dan baragraff 7,
 - (c) llunio adroddiad o dan baragraff 7 neu 8, neu
 - (d) unrhyw beth arall a wnaed wrth gynnal yr adolygiad cychwynnol.

Gwybodaeth Cychwyn

I17 Atod. 1 para. 10 mewn grym ar 21.1.2021, gweler [a. 175\(1\)\(f\)](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Rheoliadau o dan baragraff 9 neu 10: atodol

- 11 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion gwneud rheoliadau o dan baragraff 9 neu 10 neu is-baragraff (3), gyfarwyddo prif gyngor ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu neu gyngor ar gyfer cymuned mewn ardal sy'n cael ei hadolygu i ddarparu unrhyw wybodaeth i Weiniogion Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol neu i ddarparu unrhyw ddogfennau i Weiniogion Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (2) Rhaid i Weiniogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 7 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir rheoliadau o dan baragraff 9 neu 10 neu is-baragraff (3), anfon copi o'r rheoliadau i—
- (a) y Comisiwn,
 - (b) y prif gyngor neu'r prif gynghorau ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu, ac
 - (c) y cynghorau cymuned ar gyfer cymunedau y mae newidiadau canlyniadol perthnasol wedi eu gwneud iddynt o dan y rheoliadau (os oes rhai).
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan baragraff 9 neu 10 (neu'r is-baragraff hwn).

Gwybodaeth Cychwyn

I18 Atod. 1 para. 11 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Adolygiadau dilynol gan y Comisiwn pan wneir rheoliadau o dan baragraff 9(1)(b) neu 10(2)

- 12 (1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan baragraff 9(1)(b) neu 10(2) rhaid i'r Comisiwn—
- (a) os yw'r rheoliadau yn deillio o gyfarwyddyd o dan adran 11 i gynnal adolygiad cychwynnol o brif ardal, gydymffurfio ag is-baragraff (2);
 - (b) os yw'r rheoliadau yn deillio o gyfarwyddyd o dan adran 138 i gynnal adolygiad cychwynnol o'r brif ardal gyfan neu ran ohoni, gydymffurfio ag is-baragraff (3).
- (2) Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o dan adran 29(1) o Ddeddf 2013 o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal—
- (a) cyn gynted â phosibl ar ôl diwrnod yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr i'r prif gyngor ar gyfer yr ardal honno y cymhwysir y system bleidleisio newydd ynddi, a
 - (b) pa un bynnag, cyn diwrnod yr etholiad cyffredin nesaf.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o dan adran 29(1) o Ddeddf 2013 o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal berthnasol—
- (a) cyn gynted â phosibl ar ôl diwrnod yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr i'r prif gyngor ar gyfer yr ardal honno wedi i'r rheoliadau ddod i rym, a
 - (b) pa un bynnag, cyn diwrnod yr etholiad cyffredin nesaf.
- (4) Yn y paragraff hwn—
- (a) yn is-baragraff (2), ystyr “y system bleidleisio newydd” yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i ethol cynghorwyr i'r cyngor o ganlyniad i arfer y pŵer i newid y system bleidleisio o dan adran 8;

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (b) yn is-baragraff (3), ystyr “y brif ardal berthnasol” yw’r brif ardal yr oedd hi, neu unrhyw ran ohoni, yr ardal sy’n cael ei hadolygu.

Gwybodaeth Cychwyn

I19 Atod. 1 para. 12(1)(a)(2)(4)(a) mewn grym, gweler **a. 175(2)(k)(iii)(6)(b)**

I20 Atod. 1 para. 12(1)(b)(3)(4)(b) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Dirprwyo swyddogaethau gan y Comisiwn o dan yr Atodlen hon

- 13 Yn adran 13(1) o Ddeddf 2013—
- (a) ar ôl “Ran 3” mewnosoder “o’r Ddeddf hon”;
- (b) ar ôl “neu ymchwiliadau lleol)” mewnosoder “, neu Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (swyddogaethau sy’n ymwneud ag adolygiadau cychwynnol),”.

Gwybodaeth Cychwyn

I21 Atod. 1 para. 13 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Gorchmynion o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4)

- 14 Yn adran 43 o Ddeddf 2013 (amrywio a dirymu gorchmynion), ar ôl is-adran (12) mewnosoder—
- “(12A) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio neu ddirymu gorchymyn o dan yr adran hon neu adran 37, 38 neu 39 (ni waeth pa un a wnaethant hwy y gorchymyn ai peidio) o ganlyniad i reoliadau o dan baragraff 9 neu 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.”

Gwybodaeth Cychwyn

I22 Atod. 1 para. 14 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

ATODLEN 2

(a gyflwynir gan adran 23)

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL MEWN PERTHYNAS Â RHAN 1: ETHOLIADAU

RHAN 1

DEDDFWRIAETH SYLFAENOL

Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)

- 1 (1) Mae Deddf 1972 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 25 (cyfnodau swyddi cynghorwyr a'u hymddeoliad)—
 - (a) yn is-adran (1)—
 - (i) yn lle “and Part 1” rhodder “, Part 1”;
 - (ii) ar ôl “1983” mewnosoder “, and Part 1 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021”;
 - (b) yn is-adran (2)—
 - (i) yn lle “divisions” rhodder “wards”;
 - (ii) ar ôl “2013 (anaw 4)” mewnosoder “, or by regulations under paragraph 9 or 10 of Schedule 1 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021”;
 - (c) yn is-adran (3) yn lle “division” rhodder “ward”.
- (3) Yn adran 80 (anghymhwysiad person rhag cael ei ethol a dal swydd fel aelod o awdurdod lleol)—
 - (a) yn is-adran (1), ar ôl “local authority”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder “in England”;
 - (b) yn is-adran (2), ar ôl “paid officer of a local authority” mewnosoder “in England”;
 - (c) hepgorer is-adran (3B);
 - (d) yn y pennawd, yn lle “local authority” rhodder “a local authority in England”.
- (4) Yn adran 86(1)(b) (datganiad bod lle aelod awdurdod lleol yn wag), ar ôl “otherwise than under” mewnosoder “section 80A(1)(c) of this Act,”.
- (5) Yn adran 87(1)(y dyddiad y mae seddau yn digwydd dod yn wag), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—
 - “(da) in the case of disqualification of a member of a local authority in Wales under paragraph (c) of section 80A(1), on the date on which the person becomes disqualified under that paragraph,”.
- (6) Yn adran 89 (llenwi seddau sy'n digwydd dod yn wag yn achos cynghorwyr), yn is-adran (6), ar y diwedd, mewnosoder “in the case of a parish council or, in the case of a community council, made under section 36A of the 1983 Act”.
- (7) Yn adran 116 (ni chaniateir penodi aelodau o awdurdodau lleol yn swyddogion)—
 - (a) ar ôl “local authority”, yn y ddau le y mae'n digwydd, mewnosoder “in England”;

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (b) yn y pennawd ar ôl “local authorities” mewnosoder “in England”.
- (8) Yn Atodlen 12, ym mharagraff 34(5) (cynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfodydd cymunedol)—
- (a) yn lle “Secretary of State” rhodder “Welsh Ministers”;
- (b) yn lle “section 36” rhodder “section 36A”.
- (9) Yn y Ddeddf hon, hepgorer paragraff 2 o Atodlen 6 (addasu adrannau 80 a 116 o Ddeddf 1972 mewn perthynas â chynorthwywyr i'r weithrediaeth).

Gwybodaeth Cychwyn

I23 Atod. 2 para. 1(1)(2)(6)(8) mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(f)(i)**

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2)

- 2 (1) Mae Deddf 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 7B (preswylfa dybiannol: datganiadau o gysylltiad lleol)—
- (a) yn is-adran (2A) hepgorer paragraff (a);
- (b) yn lle is-adran (2B) rhodder—
- “(2B) The requirements are that the person—
- (a) is under 18 years of age and is, or has been, a child who is looked after by a local authority, or
- (b) is being kept in secure accommodation.”;
- (c) hepgorer is-adran (2C);
- (d) yn is-adran (2D), yn lle “for the purpose of restricting the liberty of persons under the age of 18” rhodder “in the United Kingdom provided for the purpose of lawfully restricting the liberty of persons under the age of 18, other than a penal institution within the meaning given in section 3(2)(b)”.
- (3) Yn adran 31(1A) (rhanbarthau a gorsafoedd pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol), yn lle “division” rhodder “ward”.
- (4) Yn adran 36 (etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr)—
- (a) yn y pennawd, hepgorer “and Wales”;
- (b) hepgorer is-adran (3AB);
- (c) yn is-adran (4)—
- (i) ar ôl “principal area” mewnosoder “in England”;
- (ii) hepgorer “a county borough”;
- (d) hepgorer is-adran (5A);
- (e) yn is-adran (6)—
- (i) hepgorer “and Wales”;
- (ii) hepgorer “or community”;
- (f) yn is-adran (6A), hepgorer “and Wales”.
- (5) Ar ôl adran 36A (rheolau ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru) (fel a fewnosodir gan adran 13(3) o'r Ddeddf hon), mewnosoder—

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

“36B Combination of local elections in Wales

- (1) Where the polls at—
 - (a) the ordinary election of councillors of a Welsh county or county borough or an election to fill a casual vacancy occurring in the office of such a councillor, and
 - (b) the ordinary election of community councillors or an election to fill a casual vacancy occurring in the office of such a councillor,
 are to be taken on the same day and the elections are for related electoral areas, the polls at those elections must be taken together.
- (2) For the purposes of this section electoral areas are related if they are coterminous or if one is situated within the other.
- (3) Where the polls at any elections are combined under this section the cost of taking the combined polls (excluding any cost solely attributable to one election) and any cost attributable to their combination must be apportioned equally among the elections.
- (4) The Welsh Ministers may by regulations make provision in connection with the combining of polls at any elections under this section including provision modifying the Representation of the People Acts in relation to such elections.
- (5) Before making regulations under this section the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.
- (6) The requirement to consult imposed by subsection (5) may be satisfied by consultation undertaken before the coming into force of this section.
- (7) The power to make regulations under this section is exercisable by statutory instrument.
- (8) Regulations must not be made under this section unless a draft of the regulations has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru.

36C Expenditure by returning officers at local elections in Wales

- (1) All expenditure properly incurred by a returning officer in relation to the holding of an election of a councillor for a county or county borough in Wales must, in so far as it does not, in cases where there is a scale fixed for the purposes of this section by the council for that area, exceed that scale, be paid by that council.
- (2) All the expenditure properly incurred by a returning officer in relation to the holding of an election of a community councillor must, in so far as it does not, in cases where there is a scale fixed for the purposes of this section by the council of the county or county borough in which the community is situated (“the principal council”), exceed that scale, be paid by the principal council; and if the principal council so require, any expenditure so incurred must be repaid to them by the community council.
- (3) Before a poll is taken at an election of a councillor for any local government area in Wales the council of that area or, in the case of an election of

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

a community councillor, the council who appointed the returning officer must, at the request of the returning officer (including any person acting as returning officer), advance to the officer such reasonable sum in respect of the officer's expenses at the election as the officer may require.”

- (6) Mae rheoliadau a wneir o dan adran 36(3C) o Ddeddf 1983 sydd mewn grym yn union cyn i adran 13(2) ddod i rym yn parhau i gael effaith, i'r graddau y maent yn gymwys i ethol cynghorwyr ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru, fel pe bai'r rheoliadau wedi eu gwneud o dan adran 36B(4) o'r Ddeddf honno (fel a fewnosodir gan is-baragraff (5)).
- (7) Yn adran 39 (etholiad i lenwi sedd wag pan fo etholiad lleol yn ddi-rym etc.)—
 - (a) yn is-adran (5)(a), ar ôl “section 36” mewnosoder “or section 36A”;
 - (b) yn is-adran (6), ym mharagraffau (a)(i) a (b)(i), ar ôl “section 36” mewnosoder “or section 36A”.
- (8) Yn adran 40(3) (cyfrifo cyfnodau o amser ar gyfer etholiadau lleol), ar ôl “section 36” mewnosoder “or section 36A”.
- (9) Yn adran 46 (darpariaeth bellach o ran pleidleisio mewn etholiad lleol)—
 - (a) yn is-adran (1), ar ôl “area”, yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder “in England”;
 - (b) yn is-adran (2), ar ôl “election” mewnosoder “in England”;
 - (c) yn y pennawd, ar ôl “voting” mewnosoder “in England”.
- (10) Ar ôl adran 46 mewnosoder—

“46A Further provision as to local election voting in Wales

- (1) Subsection (2) applies to a local government election for an electoral area in Wales where a simple majority system applies.
 - (2) An elector or person acting as proxy for an elector—
 - (a) may not give more than one vote for any one candidate;
 - (b) may not give more votes in all than the total number of councillors to be elected for the electoral ward.
 - (3) Subsection (4) applies to an election for an electoral ward of a county council or county borough council in Wales where a single transferable vote system applies.
 - (4) An elector or a person acting as proxy for an elector may not give more than one vote (whether as first preference or any subsequent preference) for any one candidate.
 - (5) No person is subject to an incapacity to vote at a local government election in Wales by reason of the fact that the person is, or is acting as, the returning officer at that election.”
- (11) Yn adran 48(1) (dilysrwydd etholiadau lleol), ar ôl “section 36” mewnosoder “, section 36A”.
 - (12) Yn adran 49(5)(b) (effaith cofrestrau), ar ôl is-baragraff (iv) mewnosoder—

“(v) in the case of a person registered as a local government elector in Wales or entered in the list of proxies by virtue

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

of being a qualifying foreign citizen, a qualifying foreign citizen.”.

- (13) Yn y darpariaethau a ganlyn, ar ôl “section 36” mewnosoder “or section 36A”—
- (a) adran 90(1)(b) (treuliau etholiadol mewn etholiad ar gyfer cynghorwyr cymuned neu gynghorwyr plwyf);
 - (b) adran 94(2) (cardiau pleidleisio ffug mewn etholiadau lleol);
 - (c) adran 96(1) (hawolgaeth i ddefnyddio ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd etholiad lleol);
 - (d) adran 97(2)(b) (cythryflon mewn cyfarfodydd etholiad lleol).
- (14) Yn adran 99(1)(b) (ni chaiff swyddog neu glerc weithredu fel asiant i ymgeisydd), ar ôl “section 36” mewnosoder “, section 36A”.
- (15) Yn adran 139(6) (treial deiseb etholiad: pleidleisiau cyfartal), yn y geiriau cyn paragraff (a), ac ym mharagraff (a), ar ôl “section 36” mewnosoder “, section 36A”.
- (16) Yn adran 187(1) (cymhwyso’r Ddeddf i etholiadau cynghorau cymuned etc.) ar ôl “section 36” mewnosoder “or section 36A”.
- (17) Yn adran 202(1) (darpariaethau dehongli cyffredinol), yn y diffiniad o “voter”, ar ôl “section 36” mewnosoder “, 36A”.
- (18) Yn adran 203(1) (darpariaethau llywodraeth leol o ran Cymru a Lloegr)—
- (a) yn y diffiniad o “electoral area”, yn lle paragraff (a) rhodder—
 - (a) in England, any electoral division or ward or, in the case of a parish in which there are no wards, the parish, for which the election of councillors is held under the local government Act;
 - (aa) in Wales, any electoral ward of a county council or county borough council or community ward or, in the case of a community in which there are no wards, the community, for which the election of councillors is held under the local government Act.”;
 - (b) yn y lle priodol mewnosoder—

““simple majority system” has the meaning given by section 6(1) of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021;

”single transferable vote system” has the meaning given by section 6(2) of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.”

Gwybodaeth Cychwyn

- I24** Atod. 2 para. 2(1)(3)-(8)(11)(13)(18)(a) mewn grym ar 20.3.2021, gweler [a. 175\(3\)\(f\)\(i\)](#)
- I25** Atod. 2 para. 2(12) mewn grym ar 20.3.2021 (yn ddarostyngedig i a. 3), gweler [a. 175\(3\)\(f\)\(ii\)](#)
- I26** Atod. 2 para. 2(2) mewn grym ar 21.1.2021, gweler [a. 175\(1\)\(k\)](#)
- I27** Atod. 2 para. 2(9)(10)(18)(b) mewn grym ar 6.5.2022, gweler [a. 175\(6\)\(c\)](#)
- I28** Atod. 2 para. 2(1)(3)-(8)(11)(13)(18)(a) mewn grym ar 20.3.2021, gweler [a. 175\(3\)\(f\)\(i\)](#)

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50)

- 3 Yn adran 15(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (cyfuno cynnal pleidleisiau), ar ôl “section 36” rhodder “or section 36B”.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I29 Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(f)**

Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (p. 56)

- 4 Yn rheol 9(3)(b) o Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (ystyr “local government boundaries”), yn lle “divisions” rhodder “wards”.

Gwybodaeth Cychwyn

I30 Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(f)**

VALID FROM 17/11/2021

Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42)

- 5 Yn adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (gwrthdaro buddiannau mewn negodiadau staff), yn is-adran (2) ar ôl “section 80(1)(a)” mewnoder “or section 80C(1)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I31 Atod. 2 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19)

- 6 Ym mharagraff 68 o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (diwygiadau canlyniadol)—
- (a) yn is-baragraff (8) hepgorer y geiriau o “and after that subsection insert—“ hyd at y diwedd;
 - (b) hepgorer is-baragraff (9);
 - (c) yn is-baragraff (10) hepgorer y geiriau o “and after that subsection insert —“ hyd at y diwedd.

Gwybodaeth Cychwyn

I32 Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(f)**

Deddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25)

- 7 Ym mharagraff 2(4) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (aelodau awdurdod lleol o awdurdodau Parciau Cenedlaethol), yn lle “divisions” rhodder “wards”.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I33 Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(f)**

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2)

- 8 (1) Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 11 (diwygio gweithdrefnau yng ngoleuni cynlluniau treialu)—
- (a) yn is-adran (6)—
- (i) hepgorer “and Wales”;
- (ii) ar ôl “made”, yr ail dro y mae’n digwydd, mewnosoder “in relation to local government elections in England”;
- (b) ar ôl is-adran (6), mewnosoder—
- “(6A) Rules made under section 36A of the 1983 Act (local elections rules in Wales) may make such provision as the Welsh Ministers consider appropriate in connection with any provision made by an order under subsection (1) in relation to local government elections in Wales.”
- (3) Yn Atodlen 4 (pleidleisio absennol ym Mhrydain Fawr)—
- (a) ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o “the appropriate rules”, ym mharagraff (b), ar ôl “section 36” mewnosoder “, section 36A”;
- (b) ym mharagraff 6—
- (i) yn is-baragraff (5), ar ôl “election” mewnosoder “(other than a local government election in Wales)”;
- (ii) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—
- “(5A) A person is not capable of voting as proxy at a local government election in Wales unless on the date of the election the person has attained the age of 16.”

Gwybodaeth Cychwyn

I34 Atod. 2 para. 8(1)(2)(3)(a) mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(f)(i)**

I35 Atod. 2 para. 8(3)(b) mewn grym ar 20.3.2021 (yn ddarostyngedig i a. 3), gweler **a. 175(3)(f)(ii)**

Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22)

- 9 (1) Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 85 (opsiynau ar gyfer etholiadau)—
- (a) yn is-adran (1) ar ôl “Part” mewnosoder “as it applies in relation to a principal council for an area in England”;
- (b) yn yr is-adran honno, o flaen “a principal council” mewnosoder “such”;
- (c) yn y pennawd, ar ôl “elections” mewnosoder “England”.
- (3) Yn adran 86 (pŵer i bennu cynllun ar gyfer etholiadau), hepgorer is-adran (1).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I36 Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 20.3.2021, gweler [a. 175\(3\)\(f\)](#)

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37)

- 10 Ym mharagraff 4(3) o Atodlen 13 i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (aelodau awdurdod lleol o fyrdau cadwraeth) yn lle “divisions” rhodder “wards”.

Gwybodaeth Cychwyn

I37 Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 20.3.2021, gweler [a. 175\(3\)\(f\)](#)

Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eitholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

RHAN 3

PWYLLGORAU PONTIO CYNGHORAU SY’N UNO A CHYNGHORAU SY’N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

Is-bwyllgorau i bwyllgorau pontio ar gyfer cyngorau sy’n uno neu gynghorau sy’n cael eu hailstrwythuro

- (1) Caiff pwyllgor pontio sefydlu un is-bwyllgor neu ragor.
- (2) Swyddogaeth is-bwyllgor i bwyllgor pontio yw cynghori’r pwyllgor pontio ar faterion a atgyfeirir i’r is-bwyllgor gan y pwyllgor pontio.
- (3) Mae aelodaeth is-bwyllgor i bwyllgor pontio i’w bennu gan y pwyllgor pontio.
- (4) Os yw pwyllgor pontio yn penodi person nad yw’n aelod o un o’r cynghorau sy’n uno neu’r cynghorau sy’n cael eu hailstrwythuro i fod yn aelod o is-bwyllgor, ni chaiff y person hwnnw bleidleisio.

Gwybodaeth Cychwyn

I193 Atod. 11 para. 5 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)(2)(b)(ii)**

Darparu cyllid, cyfleusterau a gwybodaeth etc. i bwyllgorau pontio ar gyfer cyngorau sy’n uno neu gynghorau sy’n cael eu hailstrwythuro

- (1) Rhaid i’r cynghorau sy’n uno neu’r cynghorau sy’n cael eu hailstrwythuro dalu costau pwyllgor pontio yn ôl y cyfrannau y cytunant arnynt neu, os na cheir cytundeb, y cyfrannau a ddyfernir gan Weinidogion Cymru.
- (2) Rhaid i’r cynghorau sy’n uno neu’r cynghorau sy’n cael eu hailstrwythuro ddarparu i bwyllgor pontio y cyfleusterau a’r adnoddau (gan gynnwys staff), y wybodaeth a’r dogfennau y gwna’r pwyllgor pontio (neu unrhyw is-bwyllgor i’r pwyllgor pontio) gais rhesymol amdanynt er mwyn ei alluogi i arfer ei swyddogaethau.

Gwybodaeth Cychwyn

I194 Atod. 11 para. 6 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)(2)(b)(ii)**

Pwyllgorau pontio ar gyfer cyngorau sy’n uno neu gynghorau sy’n cael eu hailstrwythuro: darpariaeth bellach

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo pwyllgor pontio i arfer ei swyddogaethau yn unol â’r cyfarwyddyd.
- (2) Ni chaiff pwyllgor llywodraethu ac archwilio na phwyllgor trosolwg a chraffu cyngor sy’n uno neu gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro arfer unrhyw un o’i swyddogaethau mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir gan bwyllgor pontio; ac at y diben hwn—
mae i “pwyllgor llywodraethu ac archwilio” (“governance and audit committee”) yr ystyr a roddir gan adran 81 o Fesur 2011;
mae i “pwyllgor trosolwg a chraffu” yr ystyr a roddir i “overview and scrutiny committee” gan adran 21(1) o Ddeddf 2000.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (3) Yn y Rhan hon o’r Atodlen hon—
- (a) ystyr “pwyllgor pontio” yw pwyllgor pontio a sefydlir yn unol â pharagraff 1 neu yn rhinwedd paragraff 4;
 - (b) mae cyfeiriad at gyngor sy’n uno mewn perthynas â phwyllgor pontio yn gyfeiriad at gyngor sy’n uno sy’n sefydlu’r pwyllgor pontio;
 - (c) mae cyfeiriad at gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro mewn perthynas â phwyllgor pontio yn gyfeiriad at gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro sy’n sefydlu’r pwyllgor pontio.
- (4) Hyd nes y bo adran 115 yn dod i rym, mae’r cyfeiriadau yn is-baragraff (2) at bwyllgor llywodraethu ac archwilio i’w darllen fel cyfeiriadau at bwyllgor archwilio.

Gwybodaeth Cychwyn

1195 Atod. 11 para. 7(1)(3)(b)(4) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

ATODLEN 12

(a gyflwynir gan adran 137)

CYFYNGIADAU AR DRAFODIADAU A RECRIWTIO ETC. GAN GYNGHORAU SY’N UNO A CHYNGHORAU SY’N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

Cyfngu ar drafodiadau a recriwtio etc. drwy gyfarwyddyd

- 1 (1) Ar ôl cael cais i uno neu ar ôl rhoi hysbysiad fel a ddisgrifir yn adran 129(6), caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor sy’n uno neu gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro—
 - (a) na chaiff y cyngor gyflawni gweithgaredd cyfyngedig oni fo wedi ystyried barn person neu bersonau penodedig ynglŷn â phriodoldeb cyflawni’r gweithgaredd;
 - (b) na chaiff y cyngor gyflawni gweithgaredd cyfyngedig oni fo person neu bersonau penodedig wedi rhoi cydsyniad ysgrifenedig i gyflawni’r gweithgaredd.
- (2) Y gweithgareddau cyfyngedig yw—
 - (a) gwneud caffaeliad neu warediad tir perthnasol;
 - (b) ymrwmo i gontract neu gytundeb perthnasol;
 - (c) gwneud caffaeliad cyfalaf perthnasol;
 - (d) rhoi grant neu gymorth ariannol arall perthnasol;
 - (e) rhoi benthyciad perthnasol;
 - (f) cynnwys swm o gronfeydd ariannol wrth gefn mewn cyfrifiad o dan adran 32 o [Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 \(p. 14\)](#);
 - (g) dechrau’r broses o recriwtio (gan gynnwys drwy recriwtio mewnol)—
 - (i) prif swyddog anstatudol a grybwyllir yn adran 2(7) o [Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 \(p. 42\)](#);
 - (ii) dirprwy brif swyddog a grybwyllir yn adran 2(8) o’r [Ddeddf honno](#).
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor sy’n uno neu gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro sy’n ceisio penodi neu ddyndodi person i swydd gyfyngedig (gan

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eitholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

gynnwys o blith ei swyddogion presennol) i gydymffurfio â gofynion penodedig ynglŷn â’r penodiad neu’r dynodiad.

- (4) Ystyr “swydd gyfyngedig”, mewn perthynas â chyngor sy’n uno neu gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro, yw—
 - (a) ei brif weithredwr a benodir o dan adran 54;
 - (b) ei swyddog monitro a ddynodir o dan adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;
 - (c) prif swyddog statudol a grybwyllir yn adran 2(6) o’r Ddeddf honno;
 - (d) ei bennaeth gwasanaethau democrataidd a ddynodir o dan adran 8(1) o Fesur 2011.
- (5) Rhaid i gyngor sy’n uno neu gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan is-baragraff (1)—
 - (a) darparu manylion ynglŷn ag unrhyw gynnig i gyflawni gweithgaredd cyfyngedig i unrhyw berson neu bersonau a bennir at ddiben is-baragraff (1) (a) neu (b) mewn cysylltiad â’r gweithgaredd hwnnw;
 - (b) darparu manylion i Weinidogion Cymru ynglŷn â chynnig i benodi neu ddynodi person i swydd gyfyngedig pan fo unrhyw ofynion yn gymwys mewn perthynas â’r penodiad neu’r dynodiad yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan is-baragraff (3).
- (6) Os rhoddir barn at ddibenion is-baragraff (1)(a) na fyddai’n briodol i gyngor sy’n uno neu gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro gyflawni gweithgaredd cyfyngedig ond bod y cyngor yn penderfynu ei gyflawni, rhaid i’r cyngor gyhoeddi ei resymau dros wneud y penderfyniad hwnnw.
- (7) Pan fo cyfarwyddyd wedi ei roi o dan is-baragraff (3), nid yw adran 143A(1)(b) a (3) o Fesur 2011 (argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gydnabyddiaeth ariannol) yn gymwys i gynnig i ddarparu cydnabyddiaeth ariannol i brif weithredwr cyngor sy’n uno neu gyngor sy’n cael ei ailstrwythuro sy’n wahanol i’r hyn a ddarparwyd i ragflaenydd y prif weithredwr.
- (8) Mae cyfarwyddyd a roddir o dan y paragraff hwn yn cael effaith o’r dyddiad penodedig.
- (9) Yn y paragraff hwn, ystyr “penodedig” yw wedi ei bennu mewn cyfarwyddyd a roddir o dan y paragraff hwn.
- (10) Hyd nes y bo adran 54 yn dod i rym—
 - (a) mae’r cyfeiriad yn is-baragraff (4)(a) at brif weithredwr cyngor a benodir o dan adran 54 i’w ddarllen fel cyfeiriad at bennaeth gwasanaeth taledig y cyngor a ddynodir o dan adran 4(1) o [Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989](#) (p. 42), a
 - (b) mae’r cyfeiriadau yn is-baragraff (7) at brif weithredwr cyngor i’w darllen fel cyfeiriadau at bennaeth gwasanaeth taledig y cyngor.

Gwybodaeth Cychwyn

1196 Atod. 12 para. 1 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler [a. 175\(1\)\(f\)\(2\)\(b\)\(ii\)\(m\)\(i\)](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Cyfarwyddydau o dan baragraff 1: atodol

- 2 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â chyfarwyddyd o dan baragraff 1.
- (2) Caiff person a bennir yn y cyfarwyddyd yn berson y mae’n ofynnol cael ei farn neu ei gydsyniad fod yn unrhyw awdurdod neu berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol, a chaiff hynny gynnwys Gweinidogion Cymru, unrhyw bwyllgor pontio (gweler Atodlen 11 ynglŷn â hynny) ac unrhyw gyngor cysgodol.
- (3) Caiff cyfarwyddyd bennu personau gwahanol—
 - (a) mewn perthynas â materion gwahanol y mae’n ofynnol cael barn neu gydsyniad yn eu cylch;
 - (b) mewn perthynas â chynghorau gwahanol sy’n uno neu gynghorau gwahanol sy’n cael eu hailstrwythuro.
- (4) Caiff cyfarwyddyd bennu, mewn perthynas â’r un gweithgaredd cyfyngedig, ofynion gwahanol mewn cysylltiad â thrafodiadau o werthoedd gwahanol ac mewn cysylltiad â chyfnodau gwahanol.
- (5) Caiff cyfarwyddyd bennu, mewn perthynas â recriwtio prif swyddog anstatudol neu ddirprwy brif swyddog—
 - (a) gofynion gwahanol mewn cysylltiad â lefelau gwahanol o gydnabyddiaeth ariannol arfaethedig;
 - (b) gofynion gwahanol mewn cysylltiad â swyddogion o ddisgrifiadau gwahanol.
- (6) Caniateir rhoi barn neu gydsyniad at ddibenion cyfarwyddyd mewn cysylltiad â thrafodiad penodol neu drafodiadau o unrhyw ddisgrifiad.
- (7) Caniateir i unrhyw gydsyniad at ddibenion cyfarwyddyd gael ei roi yn ddiamod neu’n ddarostyngedig i amodau.
- (8) At ddibenion cyfarwyddyd sy’n ymwneud â recriwtio prif swyddog anstatudol neu ddirprwy brif swyddog, caiff barn a roddir, neu amodau y mae cydsyniad yn ddarostyngedig iddynt, ymwneud yn benodol—
 - (a) â’r gydnabyddiaeth ariannol sydd i’w darparu i berson sy’n cael ei recriwtio;
 - (b) â hyd penodiad.
- (9) Mae unrhyw ddeddfiadau sy’n ymwneud â chaffaeliadau neu warediadau, ymrwymo i gontractau neu gytundebau, rhoi grantiau neu gymorth ariannol arall, rhoi benthyciadau, neu recriwtio neu benodi personau gan gynghorau sy’n uno neu gynghorau sy’n cael eu hailstrwythuro yn cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd.
- (10) Mae cydsyniad sy’n ofynnol gan gyfarwyddyd yn ychwanegol at unrhyw gydsyniad sy’n ofynnol gan unrhyw un neu ragor o’r deddfiadau hynny.

Gwybodaeth Cychwyn

I197 Atod. 12 para. 2 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)(2)(b)(ii)**

Cyfarwyddydau o dan baragraff 1: darpariaeth bellach ynglŷn â chronfeydd wrth gefn

- 3 (1) Caiff cyfarwyddyd o dan baragraff 1—

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eitholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (a) darparu nad yw barn neu gydsyniad y person neu'r personau a bennir yn y cyfarwyddyd yn ofynnol er mwyn cynnwys, mewn cyfrifiad o dan adran 32 o [Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 \(p. 14\)](#), gronfeydd ariannol wrth gefn o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd;
 - (b) darparu, mewn perthynas â chyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro, nad yw barn neu gydsyniad yn ofynnol er mwyn cynnwys mewn cyfrifiad o'r fath swm o gronfeydd ariannol wrth gefn nad yw'n fwy na swm a bennir yn y cyfarwyddyd neu a ddyfernir oddi tano.
- (2) Os yw cyfarwyddyd yn cynnwys darpariaeth yn rhinwedd is-baragraff (1), mae'r cyfeiriad ym mharagraff 1(2)(f) at swm o gronfeydd ariannol wrth gefn i'w ddarllen fel cyfeiriad at swm o gronfeydd ariannol wrth gefn ac eithrio swm a ganiateir gan y cyfarwyddyd.

Gwybodaeth Cychwyn

I198 Atod. 12 para. 3 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler [a. 175\(1\)\(f\)\(2\)\(b\)\(ii\)](#)

Cyfarwyddyd o dan baragraff 1(3): atodol

- 4
- (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â chyfarwyddyd o dan baragraff 1(3).
 - (2) Caiff cyfarwyddyd bennu gofynion gwahanol ar gyfer swyddi o ddisgrifiadau gwahanol.
 - (3) Caiff gofynion a osodir ar gyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro drwy gyfarwyddyd ymwneud, yn benodol—
 - (a) â'r gydnabyddiaeth ariannol sydd i'w darparu i berson a benodir neu a ddynodir;
 - (b) â hyd penodiad neu ddynodiad.
 - (4) Mae unrhyw ddeddfiadau sy'n ymwneud â recriwtio, dynodi neu benodi personau gan gynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro yn cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd.

Gwybodaeth Cychwyn

I199 Atod. 12 para. 4 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler [a. 175\(1\)\(f\)\(2\)\(b\)\(ii\)](#)

Cyfarwyddydau: canlyniadau mynd yn groes iddynt

- 5
- (1) Mae caffaeliad neu warediad a wneir mewn modd sy'n groes i gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1 yn ddi-rym.
 - (2) Mae contract (gan gynnwys contract cyflogaeth) neu gytundeb yr ymrwymir iddo mewn modd sy'n groes i gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1 yn anorfodadwy.
 - (3) Mae grant neu gymorth ariannol arall neu fenthyciad a roddir mewn modd sy'n groes i gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1 yn ad-daladwy.
 - (4) Os yw cyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro yn cynnwys cronfeydd ariannol wrth gefn mewn cyfrifiad o dan adran 32 o [Ddeddf Cyllid Llywodraeth](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Leol 1992 (p. 14) mewn modd sy’n groes i gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1, mae’r cyngor i’w drin at ddibenion adran 30(8) o’r Ddeddf honno fel pe na bai wedi gwneud y cyfrifiadau sy’n ofynnol gan Bennod 3 o Ran 1 o’r Ddeddf honno.

Gwybodaeth Cychwyn

I200 Atod. 12 para. 5 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)(2)(b)(ii)**

Dehongli paragraffau 1 a 7

- 6 (1) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr “caffaeliad neu warediad tir perthnasol” yw caffaeliad neu warediad tir pan fo’r gydnabyddiaeth am y caffaeliad neu’r gwarediad yn fwy na £150,000.
- (2) Yn is-baragraff (1), mae’r cyfeiriad at gaffaeliad neu warediad tir yn cynnwys—
- (a) caffael neu roi neu waredu unrhyw fuddiant mewn tir,
 - (b) ymrwymo i gontract i gaffael neu waredu tir neu i gaffael neu roi neu waredu unrhyw fuddiant mewn tir, ac
 - (c) caffael neu roi opsiwn i gaffael unrhyw dir neu unrhyw fuddiant mewn tir.
- (3) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr “contract neu gytundeb perthnasol” yw—
- (a) unrhyw gontract, ac eithrio contract cyfalaf, y mae’r gydnabyddiaeth oddi tano yn fwy na £150,000—
 - (i) pan fo cyfnod y contract yn ymestyn y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo, neu
 - (ii) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo o dan delerau’r contract,
 - (b) unrhyw gontract cyfalaf y mae’r gydnabyddiaeth oddi tano yn fwy na £500,000, neu
 - (c) unrhyw gytundeb fframwaith o fewn ystyr rheoliad 33(2) o **Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (O.S. 2015/102)**—
 - (i) pan fo cyfnod y cytundeb fframwaith yn ymestyn y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo, neu
 - (ii) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo o dan delerau’r cytundeb fframwaith.
- (4) Yn is-baragraff (3), ystyr “contract cyfalaf” yw contract y mae’r gydnabyddiaeth sy’n daladwy gan y cyngor sy’n uno neu’r cyngor sy’n cael ei ailstrwythuro mewn cysylltiad ag ef yn wariant cyfalaf at ddibenion Pennod 1 o Ran 1 o **Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26)** (cyllid cyfalaf; gweler adran 16 o’r Ddeddf honno).
- (5) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr “caffaeliad cyfalaf perthnasol” yw caffaeliad cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciad mewn unrhyw gorff corfforedig y mae’r gydnabyddiaeth mewn perthynas ag ef yn fwy na £500,000, ac eithrio caffaeliad cyfalaf benthyciad pan fo—
- (a) caffaeliad y cyfalaf benthyciad yn fuddsoddiad at ddibenion rheoli mewn modd darbodus faterion ariannol y cyngor sy’n uno neu’r cyngor sy’n cael ei ailstrwythuro, a
 - (b) y buddsoddiad yn cael ei ychwanegu at—

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eiholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (i) y rhestr swyddogol (o fewn ystyr [Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000](#) (p. 8); gweler adran 103(1) o’r Ddeddf honno), neu
 - (ii) rhestr gyfatebol a gedwir gan awdurdod mewn Gwladwriaeth AEE.
- (6) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr “grant neu gymorth ariannol arall perthnasol” yw grant neu gymorth ariannol arall (ac eithrio benthyciad) o fwy na £150,000.
- (7) Ym mharagraffau 1 a 7, ystyr “benthyciad perthnasol” yw benthyciad o fwy na £150,000—
- (a) pan fo cyfnod y benthyciad yn ymestyn y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo, neu
 - (b) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo o dan delerau’r benthyciad.
- (8) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, roi ffigur gwahanol yn lle’r un a nodir am y tro yn is-baragraff (1), (3)(a) neu (b), (5), (6) neu (7).

Gwybodaeth Cychwyn

I201 Atod. 12 para. 6 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler [a. 175\(1\)\(f\)\(2\)\(b\)\(ii\)](#)

Dyfarnu a yw trothwyon ariannol wedi eu croesi

- 7 (1) At ddiben dyfarnu a yw caffaeliad neu warediad tir yn gaffaeliad neu’n warediad tir perthnasol, mae’r gydnabyddiaeth ar gyfer y caffaeliad neu’r gwarediad o dan sylw i’w thrin fel pe bai’n cynnwys y gydnabyddiaeth ar gyfer unrhyw gaffaeliad neu warediad tir arall—
- (a) a wneir gan y cyngor sy’n uno neu’r cyngor sy’n cael ei ailstrwythuro naill ai—
 - (i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y caffaeliad neu’r gwarediad o dan sylw, neu
 - (ii) ar yr un diwrnod â’r caffaeliad neu’r gwarediad hwnnw, a
 - (b) sy’n ymwneud â’r un mater â’r caffaeliad neu’r gwarediad hwnnw, neu fater o ddisgrifiad tebyg.
- (2) At ddiben dyfarnu a yw contract neu gytundeb yn gontract neu’n gytundeb perthnasol, mae’r gydnabyddiaeth o dan y contract neu’r cytundeb o dan sylw i’w thrin fel pe bai’n cynnwys y gydnabyddiaeth o dan unrhyw gontract neu gytundeb arall—
- (a) yr ymrwymir iddo gan y cyngor sy’n uno neu’r cyngor sy’n cael ei ailstrwythuro naill ai—
 - (i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y contract neu’r cytundeb o dan sylw, neu
 - (ii) ar yr un diwrnod â’r contract neu’r cytundeb hwnnw, a
 - (b) sy’n ymwneud â’r un mater â’r contract neu’r cytundeb hwnnw, neu fater o ddisgrifiad tebyg.
- (3) At ddiben dyfarnu a yw caffaeliad cyfalaf cyfranddaliadau neu gyfalaf benthyciad mewn corff corfforedig yn gaffaeliad cyfalaf perthnasol, mae’r gydnabyddiaeth mewn cysylltiad â’r caffaeliad cyfalaf o dan sylw i’w thrin fel pe bai’n cynnwys y gydnabyddiaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gaffaeliad cyfalaf cyfranddaliadau neu

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eitholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

gyfalaf benthyciad arall (ac eithrio caffaeliad cyfalaf benthyciad pan fo’r amodau a nodir ym mharagraffau (a) a (b) o baragraff 6(5) wedi eu bodloni)—

- (a) a wneir gan y cyngor sy’n uno neu’r cyngor sy’n cael ei ailstrwythuro naill ai—
 - (i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y caffaeliad cyfalaf o dan sylw, neu
 - (ii) ar yr un diwrnod â’r caffaeliad cyfalaf hwnnw, a
- (b) a wneir yn yr un corff corfforedig â’r caffaeliad cyfalaf hwnnw.

(4) At ddiben dyfarnu a yw grant neu gymorth ariannol arall (ac eithrio benthyciad) yn grant neu’n gymorth ariannol arall perthnasol, mae swm y grant neu’r cymorth ariannol o dan sylw i’w drin fel pe bai’n cynnwys swm unrhyw grant neu gymorth ariannol arall (ac eithrio benthyciad)—

- (a) a roddir gan y cyngor sy’n uno neu’r cyngor sy’n cael ei ailstrwythuro naill ai—
 - (i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y grant neu’r cymorth ariannol o dan sylw, neu
 - (ii) ar yr un diwrnod â’r grant neu’r cymorth ariannol hwnnw, a
- (b) a roddir i’r un person ag y rhoddir y grant neu’r cymorth ariannol hwnnw iddo.

(5) At ddiben dyfarnu a yw benthyciad yn fenthyciad perthnasol, mae swm y benthyciad o dan sylw i’w drin fel pe bai’n cynnwys swm unrhyw fenthyciad arall—

- (a) a roddir gan y cyngor sy’n uno neu’r cyngor sy’n cael ei ailstrwythuro naill ai—
 - (i) ar ôl y dyddiad perthnasol ond cyn y benthyciad o dan sylw, neu
 - (ii) ar yr un diwrnod â’r benthyciad hwnnw, a
- (b) a roddir i’r un person ag y rhoddir y benthyciad hwnnw iddo.

(6) Yn y paragraff hwn—

ystyr “benthyciad” (“*loan*”) (ac eithrio yn “benthyciad perthnasol”) yw benthyciad—

- (a) pan fo cyfnod y benthyciad yn ymestyn y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo, neu
- (b) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo o dan delerau’r benthyciad;

mae “caffaeliad neu warediad tir” (“*land acquisition or disposal*”) yn cynnwys y pethau a nodir ym mharagraff 6(2);

ystyr “contract neu gytundeb” (“*contract or agreement*”) (ac eithrio yn “contract neu gytundeb perthnasol”, gweler paragraff 6(3) ynglŷn â hynny) yw—

- (a) unrhyw contract, ac eithrio contract cyfalaf—
 - (i) pan fo cyfnod y contract yn ymestyn y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo, neu
 - (ii) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo o dan delerau’r contract;
- (b) unrhyw contract cyfalaf (o fewn ystyr paragraff 6(4));
- (c) unrhyw gytundeb fframwaith o fewn ystyr rheoliad 33(2) o [Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 \(O.S. 2015/102\)](#)—

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eitholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- (i) pan fo cyfnod y cytundeb fframwaith yn ymestyn y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo, neu
- (ii) pan ganiateir estyn y cyfnod hwnnw y tu hwnt i’r dyddiad trosglwyddo o dan delerau’r cytundeb fframwaith;
ystyr “y dyddiad perthnasol” (“*the relevant date*”) yw—
 - (a) y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn cael y cais i uno, neu
 - (b) y dyddiad y rhoddir hysbysiad fel a ddisgrifir yn adran 129(6).

Gwybodaeth Cychwyn

I202 Atod. 12 para. 7 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)(2)(b)(ii)(m)(ii)**

Trothwyon ariannol: darpariaeth bellach

- 8
- (1) Pan na fo’r gydnabyddiaeth mewn cysylltiad â thrafodiad, nac unrhyw ran ohoni, mewn arian, mae’r trothwyon a nodir ym mharagraff 6 yn gymwys i werth y gydnabyddiaeth.
 - (2) Wrth ddyfarnu a yw trothwy a nodir ym mharagraff 6 wedi ei groesi, pan fo cwestiwn yn codi ynglŷn â gwerth y gydnabyddiaeth mewn perthynas â thrafodiad a bod y personau o dan sylw yn methu â dod i gytundeb, mae Gweinidogion Cymru i benderfynu ar y cwestiwn at ddibenion y dyfarniad.

Gwybodaeth Cychwyn

I203 Atod. 12 para. 8 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Canllawiau mewn perthynas â thrafodiadau, recriwtio etc.

- 9
- (1) Rhaid i berson a bennir mewn cyfarwyddyd o dan baragraff 1 roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru (a gweler adran 146 mewn perthynas â chanllawiau a ddyroddir i brif gynghorau)—
 - (a) ynglŷn â gweithrediad paragraffau 1 i 8;
 - (b) mewn perthynas ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan baragraff 1;
 - (c) ar gyflawni gweithgareddau cyfyngedig;
 - (d) ar benodi a dynodi personau i swyddi cyfyngedig.
 - (2) At ddibenion is-baragraff (1), mae “gweithgareddau cyfyngedig” a “swyddi cyfyngedig” i’w dehongli yn unol â pharagraff 1.

Gwybodaeth Cychwyn

I204 Atod. 12 para. 9 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

VALID FROM 05/05/2022

ATODLEN 13

(a gyflwynir gan adran 162)

DIDDYMU’R PŴER I GYNNAL PLEIDLEISIAU O GANLYNIAD I GYFARFODYDD CYMUNEDOL O DAN DDEDDF 1972

Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)

1 Mae Deddf 1972 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

Gwybodaeth Cychwyn

I205 Atod. 13 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

2 Hepgorer adrannau 33B a 33C (ymateb prif gyngor i fynnu cynnal pleidlais mewn cyfarfod cymunedol).

Gwybodaeth Cychwyn

I206 Atod. 13 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

3 Yn adran 150(7) (treuliau cynnal pleidleisiau)—

- (a) hepgorer, yn yr ail le y mae'n digwydd, “or community”;
- (b) ar ôl “meeting”, yn yr ail le y mae'n digwydd, mewnosoder “or of a community governance poll (as to which, see paragraph 34(8) of Schedule 12)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I207 Atod. 13 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

4 Yn adran 243(3) (cyfrifo amser)—

- (a) hepgorer “or community”;
- (b) ar ôl “meeting” mewnosoder “or a community governance poll (as to which, see paragraph 34(8) of Schedule 12)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I208 Atod. 13 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

5 Yn Atodlen 12, hepgorer paragraffau 26A a 29A (ymateb gan gyngor cymuned i gynnal pleidlais gymunedol).

Gwybodaeth Cychwyn

I209 Atod. 13 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eitholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

- 6 (1) Yn Atodlen 12, mae paragraff 34 (cyfarfodydd cymunedol yn gwneud penderfyniadau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-baragraff (1), yn lle “poll consequent thereon” rhodder “community governance poll”.
- (3) Yn is-baragraff (2)—
- (a) hepgorer “, in the first instance,”;
- (b) hepgorer “unless a poll is demanded”.
- (4) Hepgorer is-baragraff (4).
- (5) Yn lle is-baragraffau (5) a (6) rhodder—
- “(5) The Welsh Ministers may by regulations make provision about the conduct of community governance polls.
- (6) Regulations under sub-paragraph (5) may apply any enactment relating to elections or referendums (with or without modifications) to community governance polls.
- (7) A statutory instrument containing regulations under sub-paragraph (5) is subject to annulment in pursuance of a resolution of Senedd Cymru.”
- (6) Ar ddiwedd paragraff 34 mewnosoder—
- “(8) In this Part of this Schedule, “community governance poll” means a poll held on a proposal of a kind mentioned in section 27A, 27C, 27E, 27G, 27I or 27K.”

Gwybodaeth Cychwyn

I210 Atod. 13 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

- 7 Ym mharagraff 37 o Atodlen 12 (benthyca blychau pleidleisio etc.), yn is-baragraff (1) yn lle “poll consequent on a community meeting” rhodder “community governance poll”.

Gwybodaeth Cychwyn

I211 Atod. 13 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

- 8 Ym mharagraff 38 o Atodlen 12 (troseddau) yn lle “poll consequent on a community meeting” rhodder “community governance poll”.

Gwybodaeth Cychwyn

I212 Atod. 13 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

- 9 Yn Atodlen 12, hepgorer paragraffau 38A a 38B (hysbysu prif gyngor am ganlyniad cynnal pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I213 Atod. 13 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

Gwybodaeth Cychwyn

I205 Atod. 13 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

I206 Atod. 13 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

I207 Atod. 13 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

I208 Atod. 13 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

I209 Atod. 13 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

I210 Atod. 13 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

I211 Atod. 13 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

I212 Atod. 13 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

I213 Atod. 13 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42)

- 10 Yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn adran 5 hepgorer is-adran (8B) (swyddogaethau swyddogion monitro mewn perthynas â chynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfod cymunedol).

Gwybodaeth Cychwyn

I214 Atod. 13 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)

- 11 Ym Mesur 2011, hepgorer adrannau 93 i 99.

Gwybodaeth Cychwyn

I215 Atod. 13 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

Y Ddeddf hon

- 12 Yn y Ddeddf hon, hepgorer paragraff 1(8) o Atodlen 2 (diwygio paragraff 34 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972).

Gwybodaeth Cychwyn

I216 Atod. 13 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 175\(7\)](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eitholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

ATODLEN 14

(a gyflwynir gan adran 165)

DIWYGIADAU CANLYNIADOL MEWN PERTHYNAS AG UNO A DADUNO BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)

- 1 (1) Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
 - (2) Yn adran 1 (trosolwg), yn is-adran (4)(f) ar ôl “fel arall” mewnosoder “, a daduno”.
 - (3) Yn adran 37 (asesiadau llesiant lleol), yn is-adran (2) hepgorer “(6) neu”.
 - (4) Yn adran 39 (cynlluniau llesiant lleol)—
 - (a) hepgorer is-adran (6);
 - (b) yn is-adran (7)—
 - (i) yn lle “Yn dilyn hynny, rhaid” rhodder “Rhaid”;
 - (ii) yn lle “wedi hynny o dan yr adran honno” rhodder “o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)”.
 - (5) Ym mhennawd adran 47, ar ôl “Uno” rhodder “a daduno”.
 - (6) Yn adran 49 (cyfarwyddydau)—
 - (a) yn is-adran (1)—
 - (i) ar ôl “neu” mewnosoder “(8) neu adran”;
 - (ii) ar ôl “bwrdd” mewnosoder “neu'r byrddau”;
 - (b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(3) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd o'r fath.”;
 - (c) yn y pennawd, ar ôl “uno” mewnosoder “, i ddaduno”.
 - (7) Yn adran 55 (dehongli), yn y diffiniad o “cynllun llesiant lleol” yn lle “neu a ddiwygiwyd ac a gyhoeddwyd fel y'i diwygiwyd o dan adran 44(5)” rhodder “, 44(5) neu 47(6) neu (11)”.
 - (8) Yn Atodlen 3 (darpariaeth bellach ynghylch byrddau gwasanaethau cyhoeddus), ym mharagraff 6(3) (is-grwpiau)—
 - (a) ym mharagraff (h), ar ôl “44” mewnosoder “neu 47”;
 - (b) ym mharagraff (i), ar ôl is-baragraff (i) (ac o flaen y “neu” sy'n ei ddilyn) mewnosoder—

“(ia) os yw'r bwrdd yn fwrdd unedig o dan adran 47, daduno neu ddaduno yn rhannol o dan adran 47(7).”.

Gwybodaeth Cychwyn

I217 Atod. 14 para. 1 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22)

- 2 Yn Neddf 2000, yn is-adran (3B) o adran 2 (hybu llesiant) yn lle “or 44(5)” rhodder “, 44(5) or 47(6) or (11)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I218 Atod. 14 para. 2 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Deddf Addysg 2002 (p. 32)

- 3 Yn Neddf Addysg 2002, yn adran 21(9)(b) (cynllun plant a phobl ifanc perthnasol) yn lle “or 44(5)” rhodder “, 44(5) or 47(6) or (11)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I219 Atod. 14 para. 3 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5)

- 4 Yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn adran 62(7) (cynllun datblygu lleol) yn lle “or 44(5)” rhodder “, 44(5) or 47(6) or (11)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I220 Atod. 14 para. 4 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Deddf Plant 2004 (p. 31)

- 5 Yn Neddf Plant 2004, yn adran 25(9A) (cydweithredu i wella llesiant) yn lle “or 44(5)” rhodder “, 44(5) or 47(6) or (11)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I221 Atod. 14 para. 5 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1)

- 6 (1) Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 4(1) (strategaethau a lunnir gan awdurdodau lleol), yn lle “neu 44(5)” rhodder “, 44(5) neu 47(6) neu (11)”.
- (3) Yn adran 5(5) (strategaethau a lunnir gan awdurdodau eraill), yn lle “neu 44(5)” rhodder “, 44(5) neu 47(6) neu (11)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I222 Atod. 14 para. 6 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol ac Eiholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (mccc 7)

- 7 Ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, yn adran 2(2A) (cynlluniau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol) yn lle “neu 44(5)” rhodder “, 44(5) neu 47(6) neu (11)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I223 Atod. 14 para. 7 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)

- 8 Yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn adran 14A (cynlluniau yn dilyn asesiad o anghenion)—
- (a) yn is-adran (3), yn lle “neu 44(5)” rhodder “, 44(5) neu 47(6) neu (11)”;
 - (b) yn is-adran (5), ar ôl “uno” mewnosoder “a daduno”.

Gwybodaeth Cychwyn

I224 Atod. 14 para. 8 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (dccc 3)

- 9 Yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn adran 5(5A) (cyhoeddi strategaethau lleol) yn lle “neu 44(5)” rhodder “, 44(5) neu 47(6) neu (11)”.

Gwybodaeth Cychwyn

I225 Atod. 14 para. 9 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(q)**

Statws

Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.